



A470 Llwybr Teithio Llesol Llechwedd i Flaenau Ffestiniog

Cyngor Gwynedd / Ffyniant Bro / Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Croeso

Mae Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) yn eich croesawu i'r wefan ymgysylltu cymunedol hon ar gyfer Llwybr Teithio Llesol yr A470 Llechwedd i Flaenau Ffestiniog.

Rydym yn cynnal yr ymgysylltiad hwn i gyflwyno ein cynigion ar gyfer llwybr cerdded a beicio cyd-ddefnydd o Lechwedd i Flaenau Ffestiniog.

Rhagymadrodd

Fel rhan o ymdrech adfywio ehangach ar draws Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru, mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol trwy Gronfa Ffyniant Bro y DU (Levelling Up).

Mae statws byd-eang y dynodiad Treftadaeth y Byd yn cael ei ddefnyddio fel sbardun i adfywio cymunedau llechi, denu mewnfuddsoddiad, a chreu swyddi o ansawdd uchel i bobl leol.

Y nod yw rhannu a dathlu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y cymunedau hyn yn lleol ac ar lwyfan y byd.

Mae 'Llewyrch o'r Llechi: Ffyniant Economaidd o'n Gorffennol Diwydiannol' yn rhaglen fuddsoddi o brosiectau Ffyniant Bro a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'n cynnwys tri Hyb diwylliannol, gyda phrosiectau'n cael eu harwain gan sefydliadau sydd â'u gwreiddiau yn y cymunedau hynny.

Hwb Dinorwig: Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, uwchraddio cyfleusterau ymwelwyr a gwirfoddolwyr, a dehongli a mynediad ym Mharc Gwledig Parc Padarn.

Hwb Ogwen: Uwchraddio Neuadd Ogwen, ailddatblygu Yr Hen Bost fel Canolfan Dreftadaeth a Chymunedol, a gwella cysylltiadau cerdded a beicio rhwng Bethesda a Chwarel Penrhyn.

Hwb Ffestiniog: Adnewyddu ac ailddatblygu eiddo yng Nghanol y Dref i fod yn ganolfan cymunedol, a chreu llwybr cerdded a beicio newydd rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd.

Canol Trefi: Bydd gwaith yn cael ei wneud yn y tair ardal i wella canol trefi gan gynnwys gosod celf gyhoeddus, gwella ac uwchraddio arwyddion, a gwneud gwaith seilwaith ar raddfa fach a thirlunio.

Cadwraeth: Bydd prosiectau cadwraeth amrywiol yn cael eu cynnal ar henebion hanesyddol o fewn y tri hwb.

Yn Hwb Ffestiniog, mae Antur Stiniog yn arwain ar brosiectau i wella ac ail-ddefnyddio eiddo canol tref gan gynnwys Tŷ Abermawddach, Aelwyd yr Urdd, Caffi Bolton a Siop Ephraim.

Bydd yr eiddo hyn yn darparu asedau cymunedol ar gyfer gwaith ieuenctid, manau creadigol, unedau microfusnesau, llety a swyddfeydd, ynghyd â datblygu cyfleoedd i feithrin sgiliau adeiladu traddodiadol a chefnogi busnesau lleol.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiadau sy'n cael eu harwain gan Antur Stiniog, mae llwybr cerdded a beicio newydd yn cael ei ddatblygu rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd, lleoliad nifer o atyniadau poblogaidd i ymwelwyr.

Mae creu llwybr cyswllt rhwng y ddau safle wedi bod yn ddyhead i'r gymuned leol ers tro, er mwyn caniatáu mynediad diogel i dirwedd llechi Llechwedd, ac annog ymwelwyr yno i ymweld â'r dref a'i busnesau. Bydd yn darparu cysylltiadau â'r orsaf reilffordd, rheilffordd Ffestiniog a'r arosfannau bysiau gan gefnogi Teithio Llesol a hyrwyddo newid moddol. Yn ogystal ag adeiladu'r llwybr beicio mae cyfleoedd yn cael eu cymryd i greu cynefin ychwanegol i wella'r amgylchedd a lleihau ôl troed carbon y cynllun.

Bydd y buddsoddiad yn galluogi mwy o bobl i gael gwell dealltwriaeth a mynediad i'r dirwedd lechi a bydd yn chwarae rhan mewn sicrhau bod pobl leol ac ymwelwyr yn gallu gwerthfawrogi a mwynhau Safle Treftadaeth y Byd.

Mewn ymateb i'r galw lleol am lwybr diogel rhwng y safleoedd, mae'r prosiect wedi'i gynnwys ym mhhecyn Llewyrch o'r Llechi ac yn cael ei arwain gan ACGCC ar ran Llywodraeth Cymru.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Mae ACGCC ar ran Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella Teithio Llesol ar hyd yr A470 rhwng Llechwedd a Blaenau Ffestiniog i gynyddu cysylltedd a darparu llwybrau cerdded a beicio mwy diogel i gymunedau lleol.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ledled Cymru wella llwybrau cerdded a beicio yn barhaus. Y nod yw lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir un person yn unig, a chynyddu nifer y bobl sy'n cerdded ac yn beicio'n rheolaidd.

Nod Teithio Llesol yw cael mwy o bobl i gerdded a beicio ar deithiau byr er budd iechyd a lles cymunedau lleol a lleihau allyriadau CO2 o geir preifat.

Mae Cyngor Gwynedd (CG) a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau CO2 gyda'r nod o gyflawni sero net. Mae trafniadaeth yn cyfrannu tua 30% o allyriadau Cymru a gall lleihau teithio mewn car gyfrannu'n sylweddol at y targed hwn. Mae hon yn flaenoriaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n llywio'r ffordd y caiff polisiâu a strategaethau eu datblygu a'u gweithredu.

Yn ogystal, gall ymgymryd â mwy o deithiau lleol ar droed neu ar feic fod o fudd sylweddol i iechyd unigolion. Gall cerdded a beicio ar gyfer teithiau byr hefyd gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol, gan gefnogi iechyd corfforol a meddyliol.

Ar hyn o bryd, mae llawer o'n rhwydwaith ffyrdd yn cael ei ystyried yn anaddas neu'n anniwel ar gyfer beicio ac mae llawer o'n llwybrau troed yn rhy gul i'w defnyddio'n ddiogel gan bob cerddwr, gan gynnwys defnyddwyr bregus.

Beth yw teithio llesol?

Mae teithio llesol yn golygu teithio mewn ffordd actif, fel cerdded neu feicio. Fel arfer mae'n golygu teithiau byr, fel cerdded i'r siopau neu'r ysgol leol, beicio i'r gwaith neu weld ffrindiau a theulu, neu feicio i'r orsaf drenau. Mae llawer o deithiau ceir yn llai na 5 milltir, felly mae potensial gwirioneddol i gyfnewid y car am gerdded a beicio.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Lee Waters, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd:

“Mae cerdded a beicio yn darparu ymateb ymarferol a hanfodol i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau amgylcheddol ac iechyd.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn rhoi pwysau arnom i gyflawni rhwydweithiau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n annog mwy a mwy o bobl i gerdded a beicio'n rheolaidd ar gyfer teithiau yn hytrach na defnyddio car.”

Beth yw'r cynigion dylunio? (gweler y ddogfen ar wahân ar gyfer y lluniadau dylunio)

Cysyniad y dyluniad yw gwella cyfleusterau a nodweddion i gerddwyr/beicwyr sy'n teithio rhwng Tref Blaenau Ffestiniog a chyffordd Ceudwll Llechwedd / Antur Stiniog ar yr A470(T). Hyd cyffredinol y cynllun yw 1.3km.

Mae'r cynllun hwn yn ymwneud ag adeiladu llwybr defnydd a rennir ar ochr ddwyreiniol yr A470, o gyffordd yr A470(T)/Ceudyllau Llechi Llechwedd 70 metr i'r de tuag at ynys lloches i gerddwyr/beicwyr ar linell ganol yr A470(T). O'r pwynt hwn, byddai cerddwyr a beicwyr yn croesi i ochr orllewinol yr A470(T) i lwybr cerddwyr a beicwyr a rennir tuag at Riwbryfdir.

Byddai cerddwyr yn defnyddio'r droedffordd bresennol ar ochr ddwyreiniol yr A470(T) yn unig o'r ynys loches tua'r de tuag at fan croesi ynys loches ffordd gerbydau arall sy'n cysylltu â'r llwybr defnydd a rennir ar ochr ddwyreiniol yr A470(T) sydd wedi'i leoli i'r gogledd. gyrion pentref Rhiwbryfdir.

Oherwydd y cyfyngiadau ar goridor ffordd yr A470(T) drwy Riwbryfdir, nid yw'n bosibl adeiladu cyfleusterau cerdded a beicio ar wahân a pharhau i gynnal llif traffig 2-ffordd a pharcio ar y stryd.

Penderfynwyd defnyddio llwybr neillog trwy ddargyfeirio cerddwyr a beicwyr i Ffordd Dosbarth 3 Glanypwll a Ffordd Ysbyty Di-ddosbarth cyn ail ymuno â'r A470(T) i Flaenau Ffestiniog.

Byddai'r llwybr troed presennol i'r de o gyffordd Heol yr Ysbyty ar yr A470(T), ger cae chwarae rygbi Bro Ffestiniog yn cael ei lleddu i gynnwys llwybr cerdded a seiclo a rennir. Byddai cerddwyr a beicwyr yn croesi drosodd i ochr ddwyreiniol yr A470(T) i lwybr defnydd a rennir ehangach tuag at gylchfan yr A470/A496 lle daw'r cynllun i ben.

Lluniau cyfredol



Llun 1: A470/ Cyffordd Llechwedd



Llun 2: Troedffyrdd presennol yr A470(T) a waliau terfyn i'r de o Gyffordd Llechwedd.



Llun 3: Yr A470(T) bresennol tua'r de trwy Riwbyrdir



Llun 4: Presennol yr A470(T)/Heol yr Ysbyty Cyf. tua'r de trwy Riwbyrdir yn dangos llwybr troed cul presennol.



Llun 5: A470(T) Ffordd Llwyn y Gell tua'r De ger Cae Chwarae Rygbi Bro Ffestiniog. – lledu llwybr beicio arfaethedig yn lleoliad yr arglawdd glaswelltog presennol



Llun 6: A470(T) Ffordd Llwyn y Gell tua'r de tuag at gylchfan yr A470/A496.

Manteision llwybrau rhannu defnydd:

Mae eu defnydd yn fwy hyblyg - gall beicwyr neu gerddwyr fod yn grwpiau mwyafrifol ar adegau gwahanol;

Mae'r lled ehangach yn darparu'n well ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, cerbydau anabledd a beiciau; a

Mae llwybrau rhannu defnydd yn fwy cost-effeithiol gan fod angen llai o arwyddion, dodrefn stryd a marciau.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn neu Cysylltwch â ni

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw adborth neu gwestiynau, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Ebost: hefinwynjones@gwynedd.llyw.cymru